



PYSGODFA GOCOS Y TAIR AFON 2023/24

HYSBYSIAD CYHOEDDUS
a gyhoeddwyd yn unol ag

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Is-ddeddf 24 (Cau Pysgodfeydd Cregyn Dros Dro) a wnaed gan gyn Bwyllgor
Pysgodfeydd Môr De Cymru

CAU PYSGODFA GOCOS

MAE GWEINIDOGION CYMRU YN HYSBYSU, yn unol ag Is-ddeddf 24 (Cau Pysgodfeydd Cregyn Dros Dro), a wnaed gan gyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru¹, y bydd y gwelyau cocos (*Cerastoderma edule*) yn yr ardal a ddiffinnir isod ("yr Ardal") **ar gau** at ddibenion casglu cocos rhwng **00:01 ar 1 Mai 2024 a 23:59 ar 30 Ebrill 2025**.

Oni bai iddo gael caniatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, ni chaiff unrhyw un bysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd neu darfu arnynt, mewn unrhyw bysgodfa sydd wedi ei chau yn rhinwedd yr Hysbysiad hwn.

Yr Ardal

Yr Ardal sy'n cael ei chau gan yr Hysbysiad hwn yw ardal yn aberoedd Afonydd Taf, Tywi a Gwendraeth a elwir yn Aber y Tair Afon, sef yr holl ddyfroedd llanw yn Ardal cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a amgaeir gan linell a dynnir i gyfeiriad y dwyrain o Bwynt Ginst (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 332079) i Bwynt Pen Tywyn (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 357064). Y dyfroedd llanw yw'r terfynau hynny a ddiffiniwyd gan gyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru:

- Llinell a dynnir ar draws Afon Taf, rhwng Castell Lacharn a Black Scar.
- Llinell a dynnir ar draws Afon Tywi, i'r dwyrain cywir o gornel mwyaf de-ddwyreiniol Castell Llansteffan i'r lan gyferbyn.
- Llinell a dynnir ar draws pob afon neu nant sy'n llifo i aber Afon Gwendraeth, ar hyd ochr y môr y pontydd sy'n cludo'r rheilffordd rhwng Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin a Thraeth RAF Pen-bre.


Rhoddir yr hysbysiad hwn o dan awdurdod Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad yr hysbysiad: 30 Ebrill 2024

¹ I'r graddau y gallai fod wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, mae Is-ddeddf 24 a wnaed gan gyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru bellach yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud mewn Offeryn Statudol yn unol ag Erthygl 13(1) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (c.42) ac Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwnnw.

Nodiadau:

1. Gwaherddir unrhyw bysgota am gocos, at unrhyw ddiben a chan ddefnyddio unrhyw ddull, yn yr Ardal am y cyfnod a bennir uchod, oni bai y'i hawdurdodir gan Weinidogion Cymru yn unol ag Is-ddeddf 24 a wnaed gan gyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru.
2. Mae'r gwelyau'n cael eu cau er mwyn gwarchod cocos sy'n anaeddfed neu'n rhy fach ac er mwyn eu helpu i ddatblygu.
3. Mae'r Ardal ar gau ar hyn o bryd at ddibenion pysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd neu darfu arnynt, tan 30 Ebrill 2024, yn unol â Hysbysiad dyddiedig 30 Ebrill 2023 a wnaed o dan Is-ddeddf 24 cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru.
4. Dangosir yr Ardal, er gwybodaeth yn unig, ar y map isod gan ddefnyddio croeslinellau du.



RHAGOR O WYBODAETH

I weld rhagor o hysbysiadau a chael rhagor o wybodaeth am gau'r gwelyau hyn, cysylltwch ag:

Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Cyfres 3, Cedar Court,
Parc Busnes Haven y Pennaeth,
Aberdaugleddau
Sir Benfro SA73 3LS

Ffôn: 0300 025 3500 E-bost: Pysgodfeydd@llyw.cymru